



NAWEN AR GYFER Y GORSEDDIAD

Y PARCHEDICAF CHERRY ELIZABETH VANN

ADEILADU GOBAITH

Cymru'n uno mewn gweddi gyda'r Archesgob Cherry yn y dyddiau cyn ei gorseddiad

Mae'r themâu wedi'u cymryd o anerchiad llywyddol yr Archesgob Cherry i
Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru,
ddydd Iau 18^{fed} Medi 2025.



NOVENA FOR THE ENTHRONEMENT

THE MOST REVEREND CHERRY ELIZABETH VANN

BUILDING HOPE

Wales united in prayer with Archbishop Cherry in the days before her enthronement

Themes taken from Archbishop Cherry's presidential address to
the Governing Body of the Church in Wales,
Thursday 18th September 2025.

Gwahoddiad

Bydd yr Archesgob Cherry Vann yn cael ei 'gorseddu' fel 15^{fed} Archesgob Cymru yng Nghadeirlan Casnewydd ddydd Sadwrn 8 Tachwedd 2025. Dyma fydd urddfreiniad cyhoeddus ei gweinidogaeth, a byddwn yn ymgynnull yn y Gadeirlan i weddio drosti hi a chyda hi ar ddechrau pennod newydd i'r Eglwys yng Nghymru.

Fel Deon Casnewydd, fe'ch gwahoddaf i ymuno â ni wrth i ni baratoi a gweddio dros yr Archesgob Cherry a'r Eglwys yng Nghymru yn y dyddiau yn union cyn y gwasanaeth hwn (dydd Gwener 31^{ain} Hydref – dydd Sadwrn 8^{fed} Tachwedd, 2025). Mae nawen yn para naw diwrnod ac mae'n wylnos o weddi cyn digwyddiad neu ddathliad mawr.

Mae'r themâu wedi'u cymryd o anerchiad llywyddol yr Archesgob Cherry i Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, a draddodwyd ddydd Iau 18^{fed} Medi 2025. Yn ei hanerchiad, amlinellodd y blaenoriaethau a'r doniau ysbrydol a fydd yn llywio a ffurio blynyddoedd nesaf ei harchesgobaeth.

Mae'r tudalennau canlynol yn cyfuno'r themâu hynny â darn byr o'r Beibl, myfyrdod a gweddi. Mae ganddynt hefyd gysylltiadau â'r diwrnod dan sylw yng nghalendr yr Eglwys yng Nghymru. Gadewch i ni ymuno gyda'n gilydd wrth i ni weddio dros ein heglwys fel y gallwn gyda'n gilydd geisio bod yn oleuni a gobaith yn ein cenedl.

Ian Black

Deon Casnewydd



Invitation

Archbishop Cherry Vann will be 'enthroned' as the 15th Archbishop of Wales in Newport Cathedral on Saturday 8th November 2025. This is a public inauguration of her ministry, and we will gather in the Cathedral to pray for her and with her at this new beginning for the Church in Wales.

As Dean of Newport, I invite you to join with us as we prepare and pray for Archbishop Cherry and the Church in Wales in the days immediately before this service (Friday 31st October – Saturday 8th November, 2025). A novena lasts nine days and is a vigil of prayer before a major event or celebration.

The themes are taken from Archbishop Cherry's presidential address to the Governing Body of the Church in Wales, given on Thursday 18th September 2025. In this she set out the priorities and charisms to guide and shape the coming years of her archiepiscopate.

The following pages combine those themes with a short bible passage, reflection and prayer. They also find connections with the day in the Church in Wales calendar. Let us join together as we pray for our church that together we may seek to be bearers of light and hope in our nation.

Ian Black

Dean of Newport

Cliciwch ar yr adran isod i symud i'r dudalen honno.
Cliciwch ar bennawd y dudalen i ddychwelyd i'r dudalen gynnwys hon.

Diwrnod 1

Dydd Gwener 31^{ain} Hydref

Gweddi

Saint a merthyron cyfnod y Diwygiad

~

Diwrnod 2

Dydd Sadwrn 1^{af} Tachwedd

Adeiladu Gobaith

Yr Holl Saint

~

Diwrnod 3

Dydd Sul 2^{il} Tachwedd

Dangos Cariad

Teyrnas 1

~

Diwrnod 4

Dydd Llun 3^{ydd} Tachwedd

Cymod

Dygwyl y Meirw

~

Diwrnod 5

Dydd Mawrth 4^{ydd} Tachwedd

Dyfalbarhad

Saint a Merthyron y Cymundeb Anglicanaidd

~

Diwrnod 6

Dydd Mercher 5^{ed} Tachwedd

Grym ac Atebolrwydd

Cybi

~

Diwrnod 7

Dydd Iau 6^{ed} Tachwedd

Wedi'n hymyleiddio

Illtud

~

Diwrnod 8

Dydd Gwener 7^{fed} Tachwedd

Pwrrpas Craidd

Richard Davies

~

Diwrnod 9

Dydd Sadwrn 8^{fed} Tachwedd

Ymdebygu i Grist

Saint Cymru

~

Cerdd

'Ein Heglwys, ein dyfodol'

gan Mandy Bayton

~

Darlleniadau o'r Beibl wedi'u cymryd o'r Beibl Cymraeg Newydd (BCN).



Click on the section below to move to that page.
Click on the header of the page to return to this contents page.

Day 1

Friday 31st October

Prayer

Reformation era saints and martyrs

~

Day 2

Saturday 1st November

Building Hope

All Saints

~

Day 3

Sunday 2nd November

Showing Love

Kingdom 1

~

Day 4

Monday 3rd November

Reconciliation

All Souls

~

Day 5

Tuesday 4th November

Perseverance

Saints and Martyrs of the Anglican Communion

~

Day 6

Wednesday 5th November

Power and Accountability

Cybi

~

Day 7

Thursday 6th November

Marginalised

Illtud

~

Day 8

Friday 7th November

Core Purpose

Richard Davies

~

Day 9

Saturday 8th November

Becoming Christlike

Saints of Wales

~

Poem

'Our Church, our future'

by Mandy Bayton

~

Bible readings taken from New Revised Standard Version (NRSV).



Diwrnod 1

Dydd Gwener 31^{ain} Hydref**Gweddi**

Saint a merthyron cyfnod y Diwygiad

Darlleniad o'r Beibl

Llawenhewch bob amser, Gweddïwch yn ddi-baid. Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi. Peidiwch â diffodd yr Ysbryd. Peidiwch â dirmygu proffwydoliaethau. Ond rhowch brawf ar bob peth, a glynwch wrth yr hyn sydd dda. Ymgadwch rhag pob math o ddrygioni.

Bydded i Dduw'r tangnefedd ei hun eich sancteiddio chwi yn gyfan gwbl, a chadw eich ysbryd a'ch enaid a'ch corff yn gwbl iach a di-fai hyd ddyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist! Y mae'r hwn sy'n eich galw yn ffyddlon, ac fe gyflawna ef hyn.

Annwyl-garedigion, gweddïwch drosom ninnau.

1 Thesalonïaid 5. 16-25

Myfyrdod

Gweddi yw curiad calon yr eglwys. Dyma ffynhonnell a phwerdy popeth y ceisiwn ei fod a'i wneud. O godiad haul hyd ei fachlud, bydded enw'r Arglwydd yn foliannus. Mae'n ein dwyn ynghyd i bwrpas cyffredin ac mae'n ein clymu ni ar draws pellteroedd mawr, cyfandiroedd, hyd yn oed dyffrynnoedd a mynyddoedd. Trwy weddi rydym yn dod o hyd i fwy sy'n ein huno ni nag sy'n ein gwahanu ni, wrth i ni bwysu ar fywyd a chariad Duw yn Iesu Grist.

Buan iawn y bydd eglwys sy'n rhoi'r gorau i weddïo yn chwythu'i phlwc yn ysbrydol. Dechreuwn gyda galwad i weddïo, a dyma lle rydym yn gorffen hefyd. Ar drothwy tymor yr Holl Saint a'r Deyrnas, yr alwad i weddïo yw'r cam cyntaf ar unrhyw daith i sancteiddrwydd ac mewn sancteiddrwydd.

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,
mae ein gweddïau yn codi atat fel llewyrch o oleuni
yn y tywyllwch ac yn y cysgodion.
Dwyn ni'n nes at dy galon gariadus
er mwyn i'n bywydau a'n heglwys ymhyfrydu yn dy bresenoldeb a'th heddwch,
a thyfu mewn sancteiddrwydd a llawenydd.
Amen.



Day 1

Friday 31st October**Prayer**

Reformation era saints and martyrs

Bible Reading

Rejoice always, pray without ceasing, give thanks in all circumstances; for this is the will of God in Christ Jesus for you. Do not quench the Spirit. Do not despise the words of prophets, but test everything; hold fast to what is good; abstain from every form of evil.

May the God of peace himself sanctify you entirely; and may your spirit and soul and body be kept sound and blameless at the coming of our Lord Jesus Christ. The one who calls you is faithful, and he will do this.

Beloved, pray for us.

1 Thessalonians 5. 16-25

Reflection

Prayer is the heartbeat of the church. It is the source and powerhouse of everything that we aim to be and do. From the rising of the sun to its setting, God's name is to be praised. It brings us together in common purpose and a bond that crosses great distances, continents, even valleys and mountains. Through it we find the more that unites us than divides us as we draw on the life and love of God in Jesus Christ.

A church that stops praying will very soon run on empty, spiritually. We begin with a call to pray, and it is where we end too. As we stand on the threshold of All Saintstide and the Kingdom season, the call to pray is the first step on any journey to and in holiness.

Prayer

Lord Jesus Christ,
our prayers rise to you like threads of light
in the darkness and in the shades.
Draw us ever closer to your beating loving heart
that our lives and church may delight in your presence and peace,
and grow in holiness and joy.
Amen.



Diwrnod 2

Dydd Sadwrn 1^{af} Tachwedd**Adeiladu Gobaith**

Yr Holl Saint

Darlleniad o'r Beibl

Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Trwyddo ef, yn wir, cawsom ffordd, trwy ffydd, i ddod i'r gras hwn yr ydym yn sefyll ynddo. Yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn y gobaith y cawn gyfranogi yng ngogoniant Duw. Heblaw hynny, yr ydym hyd yn oed yn gorfoleddu yn ein gorthrymderau, oherwydd fe wyddom mai o orthrymder y daw'r gallu i ymddâl, ac o'r gallu i ymddâl y daw rhuddin cymeriad, ac o gymeriad y daw gobaith. A dyma obaith na chawn ein siomi ganddo, oherwydd y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni.

Rhufeiniaid 5. 1-5

Myfyrdod

Mae Cymru yn wlad y saint. Mae cymaint o leoedd wedi'u hadeiladu ar safleoedd sanctaidd y saint cynharaf a daniodd fflam ffydd a gobaith yn y wlad hon, y menywod a'r dynion sanctaidd y mae eu henwau'n fyw yn ein henwau lleoedd. Ac mae'r fflam honno a gariwyd ganddynt wedi ei throsglwyddo i saint ein hoes ni, sef pob un ohonom sy'n defnyddio'r nawen hon a'r rheini yr ydym yn rhannu enw Crist gyda nhw, ein partneriaid mewn cenhadaeth.

Mae saint yn cynnau fflam gobaith. Mae eu bywydau yn esiamplau o'r hyn y mae'n ei olygu i ddilyn Iesu Grist yn nerth yr Ysbryd, ac mewn addoliad o'r Tad. Mae eu bywydau yn disgleirio fel offerynnau tangnefedd Crist, yn aml yn wyneb treialon a heriau mawr, hyd yn oed erledigaeth. Caiff gobaith ei gyhoeddi a'i arddel, diolch i'r tystion hyn. Ledled Cymru mae cymaint o bobl yn saint ac yn dystion i Dduw yn eu cymunedau. Ar Ddydd yr Holl Saint hwn, cofiwn siars y bedydd i ddisgleirio fel goleuadau yn y byd er gogoniant i Dduw.

Gweddi

Dduw gobaith
mae dy Ysbryd yn ein hysbrydoli
i ddisgleirio fel goleuadau yn y byd.
Boed i ras y bedydd hwn
adlenwi, adnewyddu ac adfywio dy eglwys
er mwyn i'th ogoniant gael ei gyhoeddi o'r newydd yn ein hoes
ac ysbrydoli bywydau â chariad a llawenydd,
yn enw Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.



Day 2
Saturday 1st November
Building Hope
All Saints

Bible Reading

Since we are justified by faith, we have peace with God through our Lord Jesus Christ, through whom we have obtained access to this grace in which we stand; and we boast in our hope of sharing the glory of God. And not only that, but we also boast in our sufferings, knowing that suffering produces endurance, and endurance produces character, and character produces hope, and hope does not disappoint us, because God's love has been poured into our hearts through the Holy Spirit that has been given to us.

Romans 5. 1-5

Reflection

Wales is a land of the saints. So many places are built on holy sites of the earliest saints who kindled the light of faith and hope in this land, the holy women and men whose names live on in the place names. And the torch they bore has been passed on to the saints of today, which is all of us using this novena and those with whom we share the name of Christ, our partners in mission.

Saints shine lights of hope. Their lives have been and are worked examples of what it means to follow Jesus Christ in the power of the Spirit in adoration of the Father. Their lives shine as instruments of Christ's peace, many in the face of great trials and challenges, even persecution. Through this living witness hope is proclaimed and demonstrated. Throughout Wales so many people are being the saints and witnesses for God in their communities. On this All Saints Day, we recall the baptismal charge to shine as lights in the world to the glory of God.

Prayer

God of hope
your Spirit inspires us
to shine as lights in the world.
May this baptismal grace
refresh, renew and revive your church
that your glory may be proclaimed anew in our age
and inspire lives with love and joy,
in Jesus Christ our Lord.
Amen.



Diwrnod 3
Dydd Sul 2^o Tachwedd
Dangos Cariad
Teyrnas 1

Darlleniad o'r Beibl

Gyfeillion annwyl, gadewch i ni garu ein gilydd, oherwydd o Dduw y mae cariad, ac y mae pob un sy'n caru wedi ei eni o Dduw, ac yn adnabod Duw. Y sawl nad yw'n caru, nid yw'n adnabod Duw, oherwydd cariad yw Duw. Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom: bod Duw wedi anfon ei unig Fab i'r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef. Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac wedi anfon ei Fab i fod yn aberth cymod dros ein pechodau. Gyfeillion annwyl, os yw Duw wedi ein caru ni fel hyn, fe ddylem ninnau hefyd garu ein gilydd. Nid oes neb wedi gweld Duw erioed; os ydym yn caru ein gilydd, y mae Duw yn aros ynom, ac y mae ei gariad ef wedi ei berffeithio ynom ni.

1 Ioan 4. 7-12

Myfyrdod

Yn ei hanerchiad, dywedodd yr Archesgob Cherry fod yn "rhaid gweld cariad Iesu i'w gredu". Cawn ein hadnabod yn ôl ein gweithredoedd, a heb gariad, mae ein ffydd yn ddiwerth. Roedd cariad mor bwysig i Paul fel iddo ysgrifennu ei emyn mawr i gariad yn 1 Corinthetaid 13, a gaiff ei adlewyrchu yn yr emyn '*Gracious Spirit, Holy Spirit*'. Mae'n esgor ar amynedd, caredigrwydd, deisyf a chredu'r gorau y gallwn ni mewn eraill, yn enwedig pan nad ydym yn gweld llygad yn llygad.

Mae cariad yn cynhesu'r galon, hyd yn oed y galon galetaf ac oeraf. Dyma sut y dylem groesawu a chyfarfarch, gan ymgynnull o amgylch y bwrdd wrth i bryd bwyd cariad Crist gael ei rannu, boed hynny yn y Cymun, wrth y bwrdd bwyd neu yn y gegin gawl. Wrth i dymor y Deyrnas nesáu, yr arwydd mwyaf o wawr newydd i deyrnasiad Crist yw eglwys sy'n caru; eglwys lle mae pob un ohonom yn teimlo ein bod yn cael ein cofleidio a'n gwerthfawrogi.

Gweddi

Dduw cariad
Ti sy'n dod â phob bywyd i fodolaeth,
wedi'i lunio a'i feithrin yng nghalon
a chroth dy Fod.
Dysg ni i garu fel yr wyt ti'n caru,
gan roddi dy fywyd dros y byd
ac adfer yn dy ras,
i rannu bara wedi'i dorri, gwin wedi'i dywallt,
gan gofleidio pawb mewn tynerwch a thangnefedd.
Amen.



Day 3
Sunday 2nd November
Showing Love
Kingdom 1

Bible Reading

Beloved, let us love one another, because love is from God; everyone who loves is born of God and knows God. Whoever does not love does not know God, for God is love. God's love was revealed among us in this way: God sent his only Son into the world so that we might live through him. In this is love, not that we loved God but that he loved us and sent his Son to be the atoning sacrifice for our sins. Beloved, since God loved us so much, we also ought to love one another. No one has ever seen God; if we love one another, God lives in us, and his love is perfected in us.

1 John 4. 7-12

Reflection

In her address, Archbishop Cherry said that "the love of Jesus has to be seen to be believed". We are known by our actions, and without love our faith is worthless. Love was so important to Paul that he penned his great hymn to it in 1 Corinthians 13, reflected in the hymn 'Gracious Spirit, Holy Ghost'. That brings patience, kindness, wanting and believing the best we can in others, especially when we may not see eye to eye.

Love warms the heart, even of the most frozen and locked up. It is how we are to welcome and greet, gathering together round the table as the love meal of Christ is shared, be that at a Eucharist, dining table or soup kitchen. As we enter the Kingdom season, the greatest sign of the new dawn of Christ's reign is a church that loves and in which we all feel embraced and cherished.

Prayer

God of love
you bring all life into being,
forged and grown in the heart
and womb of your Being.
Teach us to love as you love,
giving your life for the world
and restoring in your grace,
to share broken bread, wine outpoured,
embracing all in tenderness and peace.
Amen.



Diwrnod 4
Dydd Llun 3^{ydd} Tachwedd 2025
Cymod
Dygwyl y Meirw

Darlleniad o'r Beibl

Felly os wyt yn cyflwyno dy offrwm wrth yr allor, ac yno'n cofio bod gan dy frawd rywbeth yn dy erbyn, gad dy offrwm yno o flaen yr allor, a dos ymaith; myn gymod yn gyntaf â'th frawd, ac yna tyrdd a chyflwyno dy offrwm.

Mathew 5. 23-24

Myfyrdod

Mae cael ein cymodi yn ganolog i'r ffydd Gristnogol. Iesu yw'r un sy'n adeiladu pontydd, yn uno dynoliaeth a Duw trwy ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Ac mae'n gwneud hyn oherwydd mai'r enfys yw arwydd Duw yn y Beibl y bydd cariad bob amser yn treiddio'n ddisglair a dyma sut mae Duw yn ymdrin â'i bobl. Hyd yn oed pan fydd awduron yr Hen Destament yn darlunio Duw yn colli ei dymer, ni all ac ni fydd byth yn troi ei gefn ar y rhai a greodd mewn cariad ac ar gyfer cariad.

Ni ddylai fod yn syndod felly, mai dyma sut yr ydym i fod gyda'n gilydd. Rydym ni, yng ngeiriau Gweddi'r Arglwydd, i roi maddeuant fel y byddwn yn ei dderbyn. Mewn rhai sefyllfaoedd bydd hynny'n her, a'r awydd i hyn fod yn wahanol yw'r cam y gallwn ei gymryd o bosibl, lle bu camdriniaeth a bod angen i ni amddiffyn. Ond gweithio dros heddwch, gweithio tuag at well dealltwriaeth ac estyn llaw heddwch yw ffordd Crist. Wrth i ni gofio'r Holl Eneidiau heddiw, y rhai fu farw, rydyn ni'n llawenhau yn y gobaith o'r atgyfodiad yng Nghrist, prynedigaeth bywydau yn eu gwychder a'u hagrach, y cymod mawr fel penllanw pob bywyd.

Gweddi

Arglwydd bywyd a chariad,
Yn dy ras cawn ein geni
ac yn dy gariad cawn fynd i fywyd newydd.
Arwain ni i arddangos
goleuni a harddwch yr enfys
yn ein deisyfiad a'n gwaith i ddwyn ynghyd
y pethau sydd wedi'u handwyo,
am dy fod ti'n dod â ni at ein gilydd yn dy ras gwaredol.
Amen.



Day 4

Monday 3rd November**Reconciliation**

All Souls

Bible Reading

When you are offering your gift at the altar, if you remember that your brother or sister has something against you, leave your gift there before the altar and go; first be reconciled to your brother or sister and then come and offer your gift.

Matthew 5. 23-24

Reflection

Being reconciled is central to the Christian faith. Jesus is the bridgebuilder, uniting humanity and God through his life, death and resurrection. And he does this because the rainbow is God's sign in the bible that love will always shine through and is how God deals with his people. Even when the Old Testament writers depict God losing his temper, he can and will never give up on those he creates in and for love.

It should not surprise then, that this is how we are to be with one another. We are, in the words of the Lord's Prayer, to forgive as we are forgiven. That brings challenges in some situations, and it may be that a desire for it to be different is the step we can take, where there has been abuse and we need to protect. But working for peace, working for a better understanding and holding out the hand of peace is the way of Christ. As we remember All Souls today, those who have died, we rejoice in the hope of the resurrection in Christ, the redemption of lives in their light and shade, the great reconciliation as the culmination of all life.

Prayer

Lord of life and love,
in your grace we are born
and in your love we enter new life.
Lead us to demonstrate
the light and beauty of the rainbow
in our desire and working to bring together
whatever has been impaired,
for you bring us together in your redeeming grace.
Amen.



Diwrnod 5

Dydd Mawrth 4^{ydd} Tachwedd**Dyfalbarhad**

Saint a Merthyron y Cymun Anglicanaidd

Darlleniad o'r Beibl

Yna dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, "Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i. Oherwydd pwy bynnag a fyn gadw ei fywyd, fe'i cyll, ond pwy bynnag a gyll ei fywyd er fy mwyn i, fe'i caiff.

Mathew 16. 24-25

Myfyrdod

Mae yna awydd cryf am atebion cyflym a hawdd. Mae bywyd gwleidyddol ac atyniad polisïau poblyddol, fel y'u gelwir, yn enghraifft o hyn. Mae hyn wedi bod yn demtasiwn i'r eglwys hefyd. Os dilynwyd chi'r rhaglen hon neu'r strategaeth hon fe fydd popeth yn newid. Gan amlaf mae problemau a heriau yn gofyn am waith arafach, ymroddedig ac atebion sydd angen tyfu yn hytrach na disgyn o'r awyr. Mae ffordd y pererinion yn daith sy'n gofyn am ymdrech a dyfalbarhad, yn enwedig pan fo'r bryn sy'n cael ei ddringo'n ymddangos yn ddiddiwedd! Ac mae'n siŵr y bydd angen dygnwch.

Nid yw ffordd y groes yn hawdd. Mae'n brifo cryn dipyn ar adegau. Gall olygu bod angen aros ar ein traed a chael ein gweld yn sefyll dros gyfiawnder ac yn erbyn gormes. Eleni, gwelsom pa mor wenwynig y gall sefydliadau gwleidyddol fod, a pha mor ffyrnig y gall yr ymateb fod. Rydyn ni'n dal ati, rydyn ni'n dyfalbarhau am ein bod ni'n dilyn Arglwydd croeshoeliedig, na allai marwolaeth ei drechu ac felly mae'r fuddugoliaeth eisoes gyda ni. Heddiw mae'r calendr yn cofio saint a merthyron y Cymundeb Anglicanaidd. Rydym yn cofio bod gennym frodyr a chwiorydd sy'n talu pris uchel iawn am eu bod yn dilyn Iesu. Maen nhw'n gwneud hynny oherwydd bod ganddyn nhw obaith yn eu calonau. Boed i'r ffydd a'r ymroddiad hwnnw ein hysbrydoli a'n sbarduno.

Gweddi

Arglwydd y llwybrau garw a'r llethrau ysgafn
cryfha ni â'th Ysbryd Glân
fel y gallwn, yn holl heriau a ffawd gyfnewidiol bywyd,
fod yn ffyddlon ac ymaros yn dy obaith,
heb gyfrif y gost ond gan lawenhau yn dy iachawdwriaeth.
drwy Iesu Grist, ein Harglwydd atgyfodedig,
Amen.



Day 5

Tuesday 4th November**Perseverance**

Saints and Martyrs of the Anglican Communion

Bible Reading

Then Jesus told his disciples, 'If any want to become my followers, let them deny themselves and take up their cross and follow me. For those who want to save their life will lose it, and those who lose their life for my sake will find it.

Matthew 16. 24-25

Reflection

There is a strong desire for quick fixes and easy solutions. We see it in political life and the lure of so-called populist policies. The church has been tempted with this too. Just follow this programme or that strategy and everything will be changed. More often problems, challenges require slower, dedicated work and solutions that need to grow rather than drop from the sky. The pilgrim way is one of a journey that requires effort and stickability, especially when it seems there is no end to this hill! And that might require endurance.

The way of the cross is not easy. It hurts at times, a lot. It might mean sticking our necks out to stand for justice and against oppression. We have seen this year just how toxic the body politic can become, and how vicious the response can be. We endure, we persevere because we follow a crucified Lord, whom death could not defeat and so the victory already is. Today our calendar remembers saints and martyrs of the Anglican Communion. We remember that we have brothers and sisters who pay a very high price for their following of Jesus. They do it because they have hope in their hearts. May that faith and dedication inspire us and spur us on.

Prayer

Lord of the rough paths and gentle slopes
strengthen us with your Holy Spirit
that in all the challenges and changing fortunes of life
we may be faithful and endure in your hope,
not counting the cost but rejoicing in your salvation.
Through Jesus Christ, our risen Lord,
Amen.



Diwrnod 6

Dydd Mercher 5^{ed} Tachwedd**Grym ac Atebolrwydd**

Cybi

Darlleniad o'r Beibl

Dyma Iesu, ac yntau'n gwybod bod y Tad wedi rhoi pob peth yn ei ddwylo ef, a'i fod wedi dod oddi wrth Dduw a'i fod yn mynd at Dduw, yn codi o'r swper ac yn rhoi ei wisg o'r neilltu, yn cymryd tywel ac yn ei glymu am ei ganol. Yna tywalltodd ddŵr i'r badell, a dechreuodd olchi traed y disgyblion, a'u sychu â'r tywel oedd am ei ganol.

Wedi iddo olchi eu traed, ac ymwisgo a chymryd ei le unwaith eto, gofynnodd iddynt, "A ydych yn deall beth yr wyf wedi ei wneud i chwi? Yr ydych chi'n fy ngalw i yn 'Athro' ac yn 'Arglwydd', a hynny'n gwbl briodol, oherwydd dyna wyf fi. Os wyf fi, felly, a minnau'n Arglwydd ac yn Athro, wedi golchi eich traed chi, fe ddylech chiwithau hefyd olchi traed eich gilydd.

Ioan 13. 3-5, 12-14

Myfyrdod

Mae Iesu'n troi ein modelau o rym wyneb i waered. Roedd disgwyl iddo fod yn arweinydd buddugoliaethus ond fe gyrhaeddodd ar gefn asyn. Pan oedd ei ddisgyblion yn siarad am rym, dywedodd wrthyn nhw am gofleidio'r groes. Ac achosodd yr hyn a wnaeth yn y Swper Olaf fwy fyth o syndod a hyd yn oed dryswch. Nid oedd golchi traed yn waith i neb. Roedd padell i bobl olchi eu traed eu hunain, ond roedd Iesu trwy'r weithred hon wedi ei roi ei hun yn is na'r gwas isaf. Dyma'r man cychwyn i ni wrth i ni feddwl am rym ac awdurdod, atebolrwydd a gwasanaeth. Nid oes neb yn uwch na Iesu, ond mae e'n rhoi ei hun yn is na phawb arall.

Mae'r rhai sy'n arwain yn gwneud hynny fel gweithred o wasanaeth, nid fel taith rymus. Ac mae darparu gwasanaeth yn golygu bod yn barod i roi cyfrif a gallu ateb am yr hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ei wneud. Heddiw rydym yn cofio Sant Cybi, abad a gofir am gyfeillgarwch a sefydlu tai gweddi yn y chweched ganrif. Mae angen i arweinwyr fod yn berthnasol, yn bobl sy'n annog ac yn gynghorwyr doeth i'r rhai sy'n troi atynt. Mae'n safle o ymddiriedaeth sydd angen gras Duw i'w chyflawni.

Gweddi

Was dioddefgar,
a roes o'r neilltu arfbais grym
ac a gofleidiodd ostyngeddwydd er mwyn i ni lewyrchu,
rho ras a doethineb i bawb sy'n arwain
a'r hyder sy'n barod i roi cyfrif.
Cryfha i'th wasanaeth y rhai rwyf ti'n eu galw
i fod yn esgobion ac archesgobion yn dy eglwys.
Amen.



Day 6

Wednesday 5th November**Power and Accountability**

Cybi

Bible Reading

During supper Jesus, knowing that the Father had given all things into his hands, and that he had come from God and was going to God, got up from the table, took off his outer robe, and tied a towel around himself. Then he poured water into a basin and began to wash the disciples' feet and to wipe them with the towel that was tied around him.

After he had washed their feet, had put on his robe, and had returned to the table, he said to them, 'Do you know what I have done to you? You call me Teacher and Lord—and you are right, for that is what I am. So if I, your Lord and Teacher, have washed your feet, you also ought to wash one another's feet.'

John 13. 3-5, 12-14

Reflection

Jesus turns our models of power upside-down. He was expected to be a triumphal leader and arrived on a donkey. When power was expressed by his disciples, he told them to embrace the cross. And what he did at the Last Supper caused even more surprise, even bewilderment. Washing feet was no one's job. A bowl was provided for guests to wash their own, so Jesus humbled himself in this act below the lowest servant. This is where we start when we want to think about power and authority, accountability and service. No one is above Jesus, and he puts himself below everyone else.

Those who lead do so as an act of service, not as an overbearing power trip. And service brings with it being prepared to give account, to answer for what we do and how we do it. Today we remember St Cybi, an abbot remembered for friendship and establishing houses of prayer in sixth century. Leaders need to be relational, encouragers and wise counsellors for those who look to them. It is a position of trust which needs the grace of God to fulfil.

Prayer

Suffering servant,
who laid aside the trappings of power
and embraced humility that we might flourish,
give grace and wisdom to all who lead
and the confidence that willingly gives account.
Strengthen for service those whom you call
to be bishops and archbishops in your church.
Amen.



Diwrnod 7

Dydd Iau 6^{ed} Tachwedd**Wedi'n hymyleiddio**

Illtud

Darlleniad o'r Beibl

Dygasant ato ddyn byddar oedd prin yn gallu siarad, a cheisio ganddo roi ei law arno. Cymerodd yntau ef o'r neilltu oddi wrth y dyrfa ar ei ben ei hun; rhoes ei fysedd yn ei glustiau, poerodd, a chyffyrddodd â'i dafod; a chan edrych i fyny i'r nef ochneidiodd a dweud wrtho, "Ephphatha", hynny yw, "Agorer di". Agorwyd ei glustiau ar unwaith, a datodwyd rhwym ei dafod, a dechreuodd lefaru'n eglur.

Marc 7. 32-35

Myfyrdod

Mae yna lawer o ffyrdd y gall rhywun fod ar y cyrion, wedi eu hymylu a'u heithrio – oherwydd anabledd, rhywedd a rhywioldeb, hil, dosbarth, digartrefedd a dibyniaeth, i restru dim ond rhai. Mae yna hefyd nifer o ffyrdd y gellir clywed Iesu yn dweud, 'Ephphatha', 'agorer di'. Un ffordd yw gofyn pa newid y mae'r person hwn ei angen ynof i, yn y gymuned hon, sut rydyn ni'n cyfathrebu, yn hytrach na disgwyl i'r llall addasu i ni. Mae hynny'n her wirioneddol, mae'n galw am newid calon, newid canfyddiad, newid sut rydyn ni'n ymwneud ag eraill ac yn ymddwyn.

Mae'n hawdd gwneud hynny i bobl mewn angen. Mae hefyd yn gwneud i ni deimlo'n hael, yn arwrol. Llauer anoddach yw'r cariad sy'n codi'rhwyl, sy'n annog gweithredu ac yn rhoi urddas. Nid dim ond ceisio bod yn oddefgar yw'r nod, oherwydd mae hynny'n golygu 'goddef'. Y nod yw cynnwys, cofleidio, dathlu'r doniau a bod yn barod i gael ein newid ganddynt. Gyda'n gilydd, yn ein hamrywiaeth, rydym yn creu cyfanwaith. Heddiw mae ein calendr yn cofio Illtud, abad o'r bumed ganrif. Daeth ei ysgol yn ganolfan ddysg bwysig. Mae gwersi ac athrawon yn dod o lefydd annisgwyl. Boed i ni ddysgu gweld y rhai sy'n wahanol fel ein hathrawon mewn bywyd a ffydd.

Gweddi

Dduw yr annisgwyl,
Gelwaist ynghyd ddynion a menywod yn eu hamrywiaeth.
Agor di ein lletygarwch i gofleidio pawb,
i ymhyfrydu yn y doniau a ddaw gyda nhw a chael ein newid ganddynt,
i ddarganfod trysorau newydd nad ydym wedi eu canfod yn iawn,
oherwydd nid yw dy gariad yn adnabod unrhyw rwystrau,
ac mae'n ehangach nag y gallwn ei ddychmygu,
yn enw Iesu.

Amen.

Day 7

Thursday 6th November**Marginalised**

Illtud

Bible Reading

They brought to Jesus a deaf man who had an impediment in his speech; and they begged him to lay his hand on him. He took him aside in private, away from the crowd, and put his fingers into his ears, and he spat and touched his tongue. Then looking up to heaven, he sighed and said to him, ‘Ephphatha’, that is, ‘Be opened.’ And immediately his ears were opened, his tongue was released, and he spoke plainly.

Mark 7. 32-35

Reflection

There are many ways that someone can be on the edges, marginalised and excluded – disabilities, gender and sexuality, race, class, homelessness and addictions, to list a few. There are also a number of ways in which Jesus can be heard to say, ‘Ephphatha’, ‘be opened’. One way is to ask what change does this person require in me, in this community, how we communicate, rather than expecting the other to fit in with us. That is a radical challenge, it calls for change of heart, change of perception, change of how we relate and behave.

It is easy to do to people in need. It also makes us feel bountiful, the hero. Much harder is the love that lifts up, that encourages agency and gives dignity. We don’t aim to be merely tolerant, because that means ‘putting up with’. We aim to include, to embrace, celebrate the gifts and willingly be prepared to be changed by them. Together, in our diversity, we complete the whole. Today our calendar remembers Illtud, a fifth century abbot. His school became an important centre of learning. Lessons and teachers come from surprising places. May we learn to see those who are different as our teachers in life and faith.

Prayer

God of surprises,
you call together men and women in their diversity.
Open our hospitality to embrace everyone,
to delight in the gifts they bring and be changed by them,
to discover new treasures that we have been impaired in perceiving,
for your love knows no barriers,
and is broader than we can imagine,
in Jesus’ name.
Amen.



Diwrnod 8

Dydd Gwener 7^{fed} Tachwedd**Pwrrpas Craidd**

Richard Davies

Darlleniad o'r Beibl

Aeth yr un disgybl ar ddeg i Galilea i'r mynydd lle y trefnodd Iesu iddynt fod; a phan welsant ef addolasant ef, er bod rhai yn amau. Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt: "Rhoddwyd i mi," meddai, "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser."

Mathew 28. 16-20

Myfyrdod

Dyma ni wyneb yn wyneb â realiti yn y darn byr hwn. Wrth greu disgyblion, mae cred ac ymarfer yn cyfuno; mae yna gysylltiad anorfod rhyngddynt. Rhaid i'r disgyblion newydd ddysgu ufuddhau i bopeth y mae Iesu yn ei orchymyn, ac fel y gwelsom dros y dyddiau diwethaf, mae hynny'n dod â chariad, gwasanaeth, hunan-roi, cymod, rhyddid, cyfiawnder a thosturi. Mae gennym efengyl i'w chyhoeddi ac mae hynny'n effeithio ar sut rydyn ni'n byw, a'r gwahaniaeth rydyn ni'n ceisio ei wneud. Mae'n rhaid i ni allu rhoi cyfrif o'r gobaith sydd ynom ni, ac mae angen i'r cyfrif hwnnw allu dangos sut mae'n cael ei roi ar waith.

Mae'n rhaid i'r label gyd-fynd â'r hyn sydd yn y tun, mae uniondeb yn bwysig. Mae sgandalau bob amser yn niweidio'r eglwys, mae'r ffynnon yn cael ei llygru ac mae'n cymryd amser hir i adfer ymddiriedaeth. Gellir gwneud newidiadau strwythurol, ond mae angen adfer y diwylliant, sef yr 'ufuddhau i bopeth rydw i wedi'i orchymyn i chi' hefyd. Bydd y gwasanaeth gorseddu yn dechrau gyda gweddïau o edifeirwch. Heddiw mae ein calendr yn cofio Richard Davies, clergig o'r 16^{eg} ganrif, o Ogledd Cymru. Fel Diwygiwr, roedd yn awyddus i ddechrau o'r newydd drwy ei Lyfr Gweddi Cymraeg a'i gyfieithiadau o'r Beibl. Rydym yn gweddïo heddiw am eglurder pwrrpas ac uniondeb yn y modd y caiff hyn ei fyw a'i weld.

Gweddi

Dduw gwirionedd a thangnefedd,
rwyf ti'n galw arnom i ddilyn dy Fab, Iesu Grist,
i addysgu a bedyddio yn dy enw di.
Pura dy eglwys yn y penderfyniad hwn,
fel y byddo i ni, gyda'n calonnau a'n meddyliau arnat ti
gyhoeddi dy ogoniant yn y wlad hon o'r newydd,
drwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.



Day 8
Friday 7th November
Core Purpose
Richard Davies

Bible Reading

Now the eleven disciples went to Galilee, to the mountain to which Jesus had directed them. When they saw him, they worshipped him; but some doubted. And Jesus came and said to them, 'All authority in heaven and on earth has been given to me. Go therefore and make disciples of all nations, baptizing them in the name of the Father and of the Son and of the Holy Spirit, and teaching them to obey everything that I have commanded you. And remember, I am with you always, to the end of the age.'

Matthew 28. 16-20

Reflection

The rubber hits the road in this short passage. In making disciples, belief and practice combine; they are intricately linked. The new converts are to learn to obey everything Jesus has commanded, and as we have seen over the past few days, that brings love, service, self-giving, reconciliation, liberation, justice and compassion. We have a gospel to proclaim and that affects how we live and the difference we try to make. We have to be able to give an account of the hope that is in us, and that account needs to be able to point to how it is lived out.

The label has to match what's in the tin, integrity matters. Scandals always damage the church, the well gets polluted and it takes a long time to restore trust. Structural changes can be made, but the culture, the 'obeying everything that I have commanded you', needs to catch up too, be restored. The enthronement service will begin with prayers of penitence. Today our calendar remembers Richard Davies, 16th century cleric from North Wales. As a Reformer, he was keen on restoring factory settings through his Welsh Prayer Book and Bible translations. We pray today for clarity of purpose and integrity in how this is lived and seen.

Prayer

God of truth and peace,
you call us to follow your Son, Jesus Christ,
to teach and baptise in your name.
Purify your church in this resolve,
that with hearts and minds set on you
your glory may be proclaimed in this land anew.
Through Jesus Christ our Lord.
Amen.



Diwrnod 9
Dydd Sadwrn 8^{fed} Tachwedd
Ymdebygu i Grist
Saint Cymru

Darlleniad o'r Beibl

Ond i bob un ohonom rhoddwyd gras, ei ran o rodd Crist.

A dyma'i roddion: rhai i fod yn apostolion, rhai yn broffwydi, rhai yn efengylwyr, rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon, i gymhwyso'r saint i waith gweinidogaeth, i adeiladu corff Crist. Felly y cyrhaeddwn oll hyd at yr undod a berthyn i'r ffydd ac i adnabyddiaeth o Fab Duw. Y nod yw dynoliaeth lawn dwf, a'r mesur yw'r aeddfedrwydd sy'n perthyn i gyflawnder Crist.

Effesiaid 4:7, 11-13

Myfyrdod

Heddiw cynhelir urddfreiniad cyhoeddus gweinidogaeth yr Archesgob Cherry. Bydd yn ddiwrnod o lawenydd, o weddïo, o ailffocysu. Daw pob dechrau â gobeithion a heriau, disgwyliadau nad ydynt i gyd efallai'n realistig. Ond mae un nod yn oesol drwy'r canrifoedd, sef tyfu i 'gyflawnder Crist', cymryd rhan ym mywyd a chariad Duw, a bod yn bobl y mae cyfoeth gair y bywyd yn byw ynddynt.

Heddiw, wrth i ni gofio Saint Cymru, y wlad hon o saint, diolchwn am dreftadaeth gyfoethog o ffydd sy'n disgleirio dros y canrifoedd trwy'r holl newidiadau y mae'r wlad hon wedi'u gweld, am y ffagl ffydd a roddwyd i ni. Boed i ni gyhoeddi gobaith Efengyl Iesu Grist o'r newydd yn ein cenhedlaeth ein hunain.

Gweddi

Dduw gobaith a llawenydd
Wrth i ni ddiolch am yr holl saint
sydd wedi llewyrchu goleuni ffydd yn y wlad hon,
bendithia dy eglwys heddiw wrth iddi geisio cyhoeddi'r
gobaith sydd gennym yn Iesu Grist.
Bendithia'r Archesgob Cherry ar ddechrau ei gweinidogaeth
a thrwy dy Ysbryd rho dy ras i'r Eglwys yng Nghymru
i weithio dros dy Deyrnas mewn gair a gweithred,
er gogoniant i'th enw.
Amen.



Day 9

Saturday 8th November**Becoming Christlike**

Saints of Wales

Bible Reading

Each of us was given grace according to the measure of Christ's gift.

The gifts he gave were that some would be apostles, some prophets, some evangelists, some pastors and teachers, to equip the saints for the work of ministry, for building up the body of Christ, until all of us come to the unity of the faith and of the knowledge of the Son of God, to maturity, to the measure of the full stature of Christ.

Ephesians 4. 7, 11-13

Reflection

Today, we will mark the public inauguration of Archbishop Cherry's ministry. It will be a day of joy, of prayer, of refocus. Every beginning brings hopes and challenges to be faced, expectations which may not all be realistic. But one aim has been present throughout the centuries, to grow into 'the full stature of Christ', to participate in the life and love of God, and to be people in whom the word of life dwells richly.

Today, as we remember the Saints of Wales, this land of saints, we give thanks for the deep heritage of faith which shines down the centuries through all the changes that this land has seen, for the torch of faith handed to us. May we proclaim the hope of the Gospel of Jesus Christ anew in our own generation.

Prayer

God of hope and joy

As we give thanks for all the saints

who have shone the light of faith in this land,

bless your church today as it seeks to proclaim

the hope we have in Jesus Christ.

Bless Archbishop Cherry at the beginning of her ministry

and through your Spirit give your grace to the Church in Wales

to work for your Kingdom in word and deed,

to the glory of your name.

Amen.



Ein Heglwys, ein dyfodol.

(cerdd wedi'i hysbrydoli gan anerchiad llywyddol yr Archesgob,
cyfieithiad o'r gwreiddiol Our Church, our future)

gan Mandy Bayton

Mae gweddïau'n codi fel edafedd o olau,
yn tyllu cysgodion poen a dryswch,
yn ein dal pan fydd y ddaear oddi tanom yn ysgwyd.

Gwnaeth newid ein hysgwyd ni,
eto rydym yn dal i sefyll.
Nid ar ein pennau'n hunain.
Ond ochr yn ochr
wedi'n clymu
gan gariad
yr un a greodd bob peth.

Mewn undod,
rydyn ni'n dod o hyd i'n perthyn.
Mewn gwahaniaeth,
rydyn ni'n dod o hyd i'n rhoddion.
Mewn amrywiaeth,
rydyn ni'n dod o hyd i'n hunaniaeth.

Gyda thosturi a gostyngeddwydd,
rydyn ni'n dal ein gilydd i gyfrif.
Gan drin ein gilydd
fel y byddem ni ein hunain yn dyheu am gael ein trin.

Cael ein ffurfio,
fel clai yn nwylo'r crochenydd,
wedi'n mowldio
i fod yn debyg i Iesu
yn ein bywyd,
yn ein cariad,
yn ein hymgygnull,
wrth fynd allan
i'r byd y mae'n dyheu am ei wella.

Gan ddod yn agosach at galon Duw.
Gydag ymwybyddiaeth dawel,
gan wybod ei fod gyda ni,
yn gwrando ar ei sibrwd,
yn dysgu gweld ei bresenoldeb
o'n mewn ac o'n cwmpas.

Yn ddyfnach eto rydym yn teithio.
Gyda'n gilydd.
Mewn gobaith.
Mewn ffydd.
Mewn cariad.
Wedi ailgymodi,
a'n hadnewyddu
trwy ras.

Ei gorff.
Ei bobl.
Ei halen a'i oleuni.

~



Our Church, our future.

(a poem inspired by the Archbishop's presidential address)
by Mandy Bayton

Prayers rise like threads of light,
piercing the shadows of pain and confusion,
holding us when the ground beneath us shakes.

Change shook us,
yet still we stand.
Not alone.
But side by side
held together
by the love
of the one who created all things.

In unity,
we find our belonging.
In difference,
we find our gifting.
In diversity,
we find our identity.

With compassion and humility,
we hold one another to account.
Treating each other
as we ourselves would long to be treated.

Being shaped,
like clay in the hands of the potter,
moulded
into the likeness of Jesus
in our living,
in our loving,
in our gathering,
in our going out
into the world he longs to heal.

Drawing closer to the heart of God.
With quiet awareness,
knowing that he is with us,
listening for his whisper,
learning to see his presence
within and around us.

Deeper still we journey.
Together.
In hope.
In faith.
In love.
Reconciled,
renewed
by grace.

His body.
His people.
His salt and His light.

~



Nodiadau



Notes

